

CYNGOR CYMDEITHAS LLANFROTHEN

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor nos Lun 9 Mai 2016.

Presennol: Cynghorwyr Glyn Griffiths (Cadeirydd), Dafydd Watts (Is-Gadeirydd), Nia Povey, R P Jones.

Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Llio Griffiths, R V Roberts, Ifor Jones, Nyfain Wyn.

ETHOL SWYDDOGION: Etholwyd y Cynghorydd Glyn Griffiths yn Gadeirydd am y flwyddyn 2016/2017 a'r Cynghorydd Dafydd Watts yn Is-gadeirydd am yr un cyfnod.

CRONFA GWELLA IS-ADEILADWAITH Y GRID CENEDLAETHOL - Adroddwyd y trafodwyd y mater yn y cyfarfod diwethaf i roi cyfle i'r Aelodau oedd yn absennol y pryd hynny i gyflwyno sylwadau. Penderfynwyd a) Peidio â chyflwyno unrhyw gynllun am ystyriaeth b) Datgan cefnogaeth i'r egwyddor o GEFNOGI TANDDAEARU y gwifrau o Finffordd I Benmorfa.

AROLWG CYFLYMDRA - Cyflwynwyd llythyr Cyngor Gwynedd yn hysbysu mai'r cyflymder uchaf a gofnodwyd oedd 51 m.y.a. Oherwydd bod y Cyngor yn parhau yn bryderus ynglŷn â'r mater byddent yn dwyn y mater i sylw'r Bartneriaeth Gan Bwyll fel y byddent hwy yn cadw golwg ar y sefyllfa. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

GWASANAETH BYSIAU ARDAL LLANFROTHEN - Cyflwynwyd copi o lythyr a dderbyniodd Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas o Gyngor Gwynedd yn rhoddi manylion o'r gwasanaeth i ardal Llanfrothen a ddarparwyd ganddynt. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

CARTHFFOSIAETH MORFA GASEG - Cyflwynwyd ymateb Dwr Cymru I'r gwyn ynglŷn â diffygion yn y sistem garthffosiaeth ar ystâd Morfa Gaseg. Yr oedd cynlluniau ar y gweill i gywiro'r diffygion ac fe anfonir manylion pellach i'r Cyngor. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

GWASANAETH BWS CYMUNEDOL – Cyflwynwyd llythyr Yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas yn rhoddi manylion pellach sut y bydd y Cynllun yn gweithredu. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

CWMNI BALFOURS - Cyflwynwyd llythyr y Cwmni yn hysbysebu nad Ystâd Brondanw yw perchnogion y tir yn arwain fyny at yr Hen Efail o'r ffordd at gefn Y Ring. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a bod yr Aelodau yn gwneud ymholiadau lleol ynglŷn â pherchnogaeth y tir dan sylw.

YSGOL ARDUDWY - Cyflwynwyd llythyr Pennaeth yr Ysgol yn hysbysu bydd disgyblion hynaf yn barod i wneud gwaith ar gynlluniau lleol yn ystod mis Gorffennaf

ac yn gofyn am awgrymiadau. Penderfynwyd awgrymu glanhau y tu mewn a thu allan i'r Ganolfan Gymdeithasol a hefyd yr un fath ynglŷn â Siop y Pentref sydd yn eiddo cymunedol.

CYNGOR TREF PENRHYNDEUDRAETH - Cyflwynwyd llythyr y Cyngor yn gwahodd y Cyngor i anfon cynrychiolaeth i gyd-gyfarfod o Gyngorau Lleol yn yr ardal. Penderfynwyd derbyn y gwahoddiad a bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn mynychu.

SWYDDFA BOST SYMUDOL - Cyflwynwyd llythyr y Swyddfa Bost yn hysbysebu ei bod yn gwneud ei gorau i geisio trefnu bod y gwasanaeth yn ymweld â Llanfrothen ond fod rhai problemau angen eu goresgyn yn gyntaf.

ASESIAD RISG - Cyflwynwyd draft o asesiad risg y Cyngor. Penderfynwyd ei fabwysiadu fel Asesiad Risg y Cyngor am y flwyddyn 2016/2017.

RHEOLAU SEFYDLOG Y CYNGOR - Cyflwynwyd copi o Reolau Sefydlog presennol y Cyngor. Penderfynwyd eu mabwysiadu fel Rheolau Sefydlog y Cyngor am y flwyddyn 2016/2017.

RHEOLAU ARIANNOL Y CYNGOR - Cyflwynwyd copi o Reolau Ariannol y Cyngor. Penderfynwyd eu mabwysiadu ar gyfer y flwyddyn 2016/2017.

ADOLYGU AC ARBRAWF - Cyflwynwyd copi o Adolygu ac Arbrawf presennol. Penderfynwyd eu mabwysiadu fel Adolygu ac Arbrawf y Cyngor am y flwyddyn 2016/2017.

CAIS I AIL-LEOLI'R SAFLE BWS - Cyflwynwyd adroddiad y Clarc fod Cyngor Gwynedd wedi cytuno i symud yr arosfa bws i'r safle a awgrymwyd gan y Cyngor. Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

BILIAU I'W TALU - Penderfynwyd talu'r biliau canlynol :-

J D Roberts archwiliwr mewnol £65

Cyngor Gwynedd – Treth y Ganolfan £510.30

Unllais Cymru – Aelodaeth £67

R Pearson – torri coed y Fynwent £1,200

Ifan Williams – ail godi wal £250

Dŵr Cymru - £56.86

Scottish Power - £133.49

Norman Kerr – agor beddi £1,100

A.O.N. – Yswiriant y Cyngor £942.73

Delwedd - safle'r We £119.40

CYRFF ANIFEILIAID YN CAEL EU CLADDU - Adroddwyd fod ysbwriel yn cynnwys cyrff anifeiliaid yn cael eu gadael ar safle yn ymyl y ffordd Rufeinig rhwng Croesor a Tanybwllch. Penderfynwyd dwyn y mater i sylw Adran Iechyd Cyngor Gwynedd gyda chais am weithrediad buan.

DEFNYDD O DOILEDAU - Adroddwyd bod cynllun yn weithredol mewn rhai mannau ble mae Cyngor Gwynedd yn gwneud taliadau i fusnesau lleol a fydd yn caniatáu i'r cyhoedd ddefnyddio eu toiledau. Penderfynwyd gwneud ymholiad a ellir gweithredu'r cynllun yma yn Llanfrothen.